

Cyngor Cymuned Betws y Coed Community Council
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12fed o Chwefror 2024

Yn bresennol – Ffiona Jones (Cadeirydd) Neil Pringle (Is-gadeirydd) Janet Charlton, Phil Roberts, Bedwyr ap Gwyn, Chris Jones, y Cynghorydd Elizabeth Roberts, Haf Jones (Clerc)

1. Ymddiheuriadau – Sian Godbert

2. Datganiad o ddiddordeb mewn unrhyw eitem ar yr agenda – Dim datganiadau

Cyflwynodd Glenn Evans, Rheolwr Gwestai Waterloo & Royal Oak, drosolwg o brosiect llwyfan gwyllo Pont Waterloo, a gafodd ganiatâd cynllunio yn 2020. Roedd y cynlluniau dylunio wedi'u dosbarthu'n electronig cyn y cyfarfod. Y cysyniad a gyflwynwyd oedd, ar gais llwyddiannus am gyllid i Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar gyfer adeiladu'r atyniad, bod Cwmni Budd Cymunedol yn cael prydles 25 mlynedd i reoli'r maes parcio atyniad a chael canran incwm o'r ffoedd parcio. Dilynwyd y cyflwyniad gan gyfle cwestiwn ac ateb.

Roedd y Cyngor yn falch o dderbyn manylion am y prosiect a'r cysyniad rheoli yn y dyfodol gan Gwmni Buddiant Cymunedol. Diolchodd y Cadeirydd i Mr Evans am ei gyflwyniad.

3. Cofnodion Cyfarfod Ionawr - penderfynwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

4. Materion yn codi :-

4.1 Pont y Pair ac Erw Hedd – dim ymateb. Mae'r Cyngorwyr yn parhau i bryderu am yr ardal fechan o fannau claddu sydd yn parhau, a phwy sy'n gyfrifol am ddarparu man claddu. Clerc i ymchwilio.

4.3 Coetsys yn codi/gollwng ar Ffordd yr Orsaf – dim diweddariad

4.4 Safle Ultimate Outdoors – manylion cyswllt asiant wedi'u derbyn. Clerc i geisio cael rhagor o wybodaeth am gynlluniau'r perchennog ar gyfer dyfodol y safle.

4.5 A5 Ffordd Caergybi ym Mhentre Du – wal wedi disgyn. Gwaith atgyweirio wedi'i gyflawni gan NMWTRA o fewn amser byr. Ymhellach, codwyd pryder gan noddwyr busnesau rhwng Pont y Pair ac Alpkit ynghylch cyflwr wyneb y ffordd a difrod posibl i ffenestri yn sgil codi tarmac rhydd. Roedd y Clerc wedi cyfleu pryder i NMWTRA a ddywedodd mewn ymateb eu bod yn monitro'r sefyllfa wrth baratoi ar gyfer gwaith ailwynebu ym mis Ebrill yn amodol ar argaeledd y gyllideb.

5. Materion staffio –

Cynllun hyfforddi wedi'i baratoi. Mae'r Clerc a nifer o Gynghorwyr wedi mynychu modiwlau hyfforddi Un Llais Cymru yn ddiweddar a chafwyd trafodaeth ar y dysgu hwnnw a'r gwerth sy'n berthnasol i waith y Clerc a'r Cynghorwyr.

Fan y Llan – bu cyfarfod diweddar y pwyllgor cyflogaeth yn trafod cyflogaeth y Weithredydd Balchder Cymunedol; i'w gyflogi gan y Cyngor Cymuned neu'n hunangyflogedig. Bydd angen trafod hyn a bydd angen cymeradwyaeth yr ariannwr grant.

Craffwyd rhestr o doriadau arfaethedig y gyllideb adran Ffyrdd a Chyfleusterau'r Amgylchedd (ERF) CBSC ar gyfer blwyddyn 24/25, a'r effaith posib ar y pentref. Cais am gyfarfod gyda Rheolwr ERF i'w wneud.

Yn yr un cyfarfod cynhaliwyd adolygiad chwarterol o waith y Clerc.

Mae Swyddogion Datblygu Cymunedol yn bwrw ymlaen â dylunio gwelliannau sensitive i brofiad ymwelwyr yn y Rhaeadr Ewynnol ac ymchwil i hanes y Neuadd Goffa i baratoi ar gyfer yr ymarfer ymgysylltu. Mae gosod yr orsaf wefru e-feic yn mynd yn ei flaen. Gwnaed cais i Gronfa Ffyniant Gyffredin ar gyfer digwyddiad Gŵyl Haf Cymunedol, ac yn disgwyl canlyniad y gais.

6. Materion Ariannol a Thaliadau.

Cymodi taliadau banc o fis Ionawr, archwiliwyd datganiad ac incwm a ganfuwyd eu bod yn gywir. Amserlen dalu anfonebau ar gyfer taliad wedi'u paratoi a'u awdurdodi.

Lwfans Cynghorwyr Statudol - anfonwyd llythyr at bob Cynghorydd er mwyn iddynt fynegi eu dymuniad neu beidio â hawlio'r lwfans o £150.

Bancio Electronig y Dyfodol – Ffurflen gais wedi'i derbyn. Clerc i ddysgu gan Gynghorau eraill y broses sydd ei hangen i gydymffurfio â rheoliadau ariannol.

Cais am gymorth ariannol – Eisteddfod Gadeiriol Llanrwst – aflwyddiannus

Cynllun Chwarae CBSC – Cais am £1400 i gefnogi 5 sesiwn Cynllun Chwarae'r Haf neu 10 sesiwn chwarae yn ystod y flwyddyn 2025 i'w gynnal yng Nghae Llan; mae hyn yn cynnwys 2 sesiwn yn y Pasg, 1 sesiwn yn ystod hanner tymor mis Mai, 5 sesiwn haf, 1 sesiwn yn Hanner Tymor Hydref, 1 sesiwn yn hanner tymor mis Chwefror.

Crynodeb o'r cynnig a'r penderfyniad gan y Cyngor – i gefnogi'r 5 cynllun chwarae'r haf a 2 sesiwn Pasg yn unig ar yr amod eu bod yn cael eu cynnal ym Mhentre Du; gofyn i reolwyr safle Ysgol Betws y Coed a ellid defnyddio neuadd yr ysgol mewn tywydd garw neu fel arall i ddefnyddio'r Neuadd Goffa.

Mae'r Clerc wedi paratoi ffurflen gais Grant Bach Cymunedol drafft yn unol â rheoliadau Adran 137. Gahoddwyd a derbyniwyd sylwadau. Gwneir newidiadau cyn gwahodd ceisiadau yn nechrau mis Ebrill.

7. Rhaeadr Ewynnol

2,500 o ymwelwyr yn ystod mis Ionawr, mater bach gyda system mynediad arian parod wedi'i datrys yn gyflym. Cymhareb cerdyn i daliadau mynediad arian parod 70/30. Ni fydd y ciosg yn cael ei staffio yn ystod hanner tymor mis Chwefror oni bai bod argyfwng yn codi.

Gall y Clerc weld lluniau CCTV byw o bell a'r system talu cardiau hyd at funud sy'n rhoi gwybodaeth am amseroedd a nifer yr ymwelwyr ar y safle.

Cyn bo hir, bydd y Sgowtiaid yn ymgymryd â rhywfaint o waith tynnu graffiti ar y Kiosk, sydd o fudd iddyn nhw wrth eithio tuag at ennill eu gwobrau uwch,ble mae'n ofynnol iddynt gymryd rhan neu ymgymryd â phrosiect.

Gofyn Stad Ancaster am 1/3 o'r enillion gros am y cyfnod rhwng Ebrill a Medi 2023 - wedi'i gymeradwyo ar gyfer talu.

Cae Llan – gwnaed ymweliad diweddar gan dimau Local Places for Nature CBSC a PC Eryri a dylunydd tirwedd gyda'r Clerc a Chynghorydd yn bresennol. Bydd ail dylunydd yn ymweld yn y dyfodol agos. Pan fydd y ddau gysyniad dylunio ar gael, gwnaed cais eu bod ar gael i'w gweld gan y gymuned i gymeradwyo a/neu ddarparu sylw. Mae pryder yn parhau ynglyn a'r canopi trwchus a gorgrogi canghennau uwchben y llwybr troed.

Neuadd Goffa a Bryn y Bont – mis tawel traddodiadol ar gyfer archebion. Roedd adroddiad cyflwr allanol a dderbyniwyd gydag amcangyfrif o gost gwaith yn gofyn am £35k ac eithrio sgaffaldiau. Arolygon rheoli asbestos ac Ynni wedi'u cynnal ac yn aros adroddiadau.

8. Cais Cynllunio NP4/11/55K Ffordd Caergybi, Betws y Coed. LL24 0BN

Newid defnydd o Westy (Dosbarth Defnydd C1) i Hostel (Sui Generis) a newidiadau allanol Bryn Llywelyn, Betws y Coed.

Dolen i'r cais a'r wybodaeth ar wefan y Cyngor Cymuned gyda gwahoddiad i roi sylwadau i'r Clerc erbyn dydd Llun 19 Chwefror.

Pryderon ynglyn a'r reality o ymwelwyr yr Hostel yn teithio i'r pentref ar drafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r Cynllun Teithio sydd wedi'i gynnwys gyda'r cais yn aml yn nodi y bydd "teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus yn cael ei annog" ac mae'n canolbwyntio'n bennaf ar ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus leol i gyrraedd Yr Wyddfa ac Ogwen. Ychydig o fanylion am deithio i'r pentref o dros ffin Lloegr ar drafnidiaeth gyhoeddus gafodd ei gynnwys. Ystyrir bod darpariad manau parcio mewn perthynas â nifer y lleoedd gwely a staff yn anghymesur, ac ystyrir bod gweledd yr unig fynediad ar gyfer cerbydau ac i gerddwyr gyrraedd y pafin gyferbyn yn beryglus.

9. Cynllun Cyllideb/Cofrestr Asedau

Mae'r cynllun yn parhau i fod ar waith, mae angen sicrhau bod yr holl gostau ar gyfer y flwyddyn i ddod yn cael eu nodi ynddo. Cofrestr asedau yn cael ei pharatoi at ddibenion archwilio a bydd yn cael ei rhannu gyda'r cwmni yswiriant i sicrhau bod yr holl eitemau yn cael eu cynnwys yn yr atodlen.

10. Er gwybodaeth

Heddlu - dim adroddiad o ddigwyddiadau yn y pentref yn ystod mis Ionawr.

Mae SCCH Peter Jones wedi symud ymlaen i rôl wahanol ac mae SCCH Michelle Farrell wedi cymryd ei le, mi fydd yn mynychu cyfarfod mis Mawrth.

Betws di-balstig – Mae'r Cynghorwyr yn gwerthfawrogi ac yn ddiolchgar i ymdrechion y casglwyr sbwriel arferol am eu gwaith. Cafodd cryn dipyn o sbwriel ei gasglu'n ddiweddar yn yr ardal chwarae ym Mhentre Du ac ym maes parcio Pont y Pair.

Pont Soldiwr/Sappers Bridge – diweddariad fel a ganlyn:

- Arolygon, ymchwiliad tir a dyluniad amlinellol wedi'u cwblhau.
- Cynhaliwyd ymgynghoriad Cyhoeddus ar opsiynau pontdd yn Nhachwedd 2023 - roedd cefnogaeth gymunedol gref ar gyfer Opsiwn 1 (pont grog newydd)
- Alinio a dylunio llwybr o'r bont i'r A470 wedi'i gadarnhau. Ymgysylltiad cadarnhaol â pherchen tir ynghylch caffael y tir ac ail-lwybro PRow.
- Ymateb ffurfiol i gyngor cyn-cais a anfonwyd at PCE. Cais cynllunio i'w gyflwyno ym mis Ebrill 2024.
- Trafodaethau cadarnhaol gyda NMWTRA/WG ynglyn a darparu llwybr ymlaen i Lanrwst yng nghoridor yr A470. Dyluniad amlinellol wedi'i ddechrau.
- Dechrau adeiladu dros dro Ionawr 2025.

Hyfforddiant Cynllun Llifogydd - Gwahoddiad i Ddigwyddiadau Gwirfoddolwyr Llifogydd Cymunedol 2023 yng Nghanolfan Fusnes Conwy, wedi'i aildrefnu ar gyfer 21 Mawrth 10-16.00. I'w dosbarthu i'r Cynghorwyr.

Ystafelloedd Newid – Mynychodd y Clerc ddigwyddiad Mencap yn Llanrwst yn ddiweddar lle ceisiwyd gwahoddiadau ar gyfer lleoliadau addas ar draws Gogledd Cymru i ddarparu ystafelloedd newid hygyrch. Mae'r prosiect yn cael ei ariannu gan Gronfa Codi'r Gwastad a nodwyd Betws y Coed fel lleoliad addas yn amodol ar y lle sydd ar gael na all fod yn gyfleuster sy'n eiddo i'r Awdurdod Lleol. Wedi cysylltu efo PCE i ddeall a oes lle ar gael yn y Royal Oak Stables/Y Ganolfan Croeso. Aros am ymateb.

Swyddogion Cymunedol Parc Cenedlaethol Eryri - cais diweddar i gwrdd â Chlercod i drafod cynllun rheoli Cynllun Eryri. Trefnwyd ar gyfer 29 Chwefror.

Adroddiad y Cynghorydd Liz Roberts:

Bydd deddfwriaeth ar waith tua diwedd y flwyddyn lle bydd angen caniatâd cynllunio i newid defnydd anheddau fel llety gwyliau. Awgrymu cais am hyfforddiant gan ENP i ddeall yn well.

Bydd lleoliaeth yn cael ei diddymu yn y broses o osod tai lleol cyn bo hir.

Gofynnodd y Cynghorwyr y dylid gwahodd cynrychiolydd Grŵp Cynefin i'r cyfarfod nesaf i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad tai hir-ddisgwyliedig Pentre Du.

Gwasanaethau Meddygfa Betws y Coed – roedd sion yn cylchredeg bod contractwr wedi'i benodi i ddarparu gwasanaethau o 30 Ebrill 2024 sef y dyddiad mae'r contract presennol yn dod i ben. Clerc i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf gan Llais.

Dyddiad y cyfarfod nesaf – Dydd Llun 11eg Mawrth, 7pm yn y Neuadd Goffa.